Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

15 Mai 2008

Mae angen i ysgolion ymwneud yn fwy â bywyd cymunedol

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, wedi cyhoeddi adroddiad heddiw ynglŷn â pha mor dda y mae ysgolion bro yn gwasanaethu eu cymunedau. Mae'r adroddiad yn galw ar ysgolion i annog eu cymunedau lleol i wneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau ac adnoddau ysgol.

Mae'r arolygiaeth wedi cyhoeddi adroddiad sy'n ystyried pa mor dda y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau i fodloni anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

"Ledled Cymru gyfan, mae'r Grant Ysgolion Bro wedi gwella mynediad at adnoddau ysgol, yn enwedig ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Y fantais arall y sonnir amdani fwyaf yw gwelliant mewn perthynas, cyfathrebu a dealltwriaeth rhwng ysgolion a'u cymunedau lleol", meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r grant, a ddefnyddir ochr yn ochr â chyllid ac adnoddau'r ysgolion eu hunain, yn gallu cael ei ddefnyddio i ariannu ystod o weithgareddau gwahanol fel prosiectau gerddi ar osod a gerddi cymunedol, timau ynni ysgol (monitro'r defnydd o ynni a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy), cyrsiau diogelwch ar y ffordd ar gyfer beicwyr, a chynlluniau i integreiddio Sipsi Deithwyr i'r gymuned.

Cyn cyflwyno'r grant, roedd llawer o ysgolion ledled Cymru eisoes wedi sefydlu gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r cyllid – y trefnwyd ei fod ar gael rhwng 2005 a 2008 – wedi galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i adeiladu ar yr hyn y maent eisoes yn ei gynnig i'r gymuned, ac wedi'u hannog i ymgymryd â mentrau a datblygiadau newydd. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd niferoedd sylweddol o brosiectau yn bodloni unrhyw un o'r tri maen prawf penodol ar gyfer cyllid, a nifer fach o gynlluniau yn unig fydd yn cyflawni potensial llawn y Cynllun Ysgolion Bro ac yn cynnig manteision sylweddol i'w cymuned leol. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr mewn rhai cymunedau yn cael mynediad llawer gwell at ddysgu y tu allan i oriau a gwasanaethau eraill nag unman arall.

Y prif rwystr rhag datblygu ymhellach yw'r ffaith fod awdurdodau lleol yn methu sefydlu systemau digonol ar gyfer monitro ac arfarnu eu cynnydd. Nid yw ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid yn y dyfodol wedi helpu hyn, ac mae wedi'i gwneud yn anodd i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir. Canfu Estyn fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn credu na fyddan nhw a'u hysgolion yn gallu cynnal yr un lefel o weithgareddau bro heb y grant. O'r herwydd, ni all awdurdodau lleol osod targedau ar gyfer gwella na bwydo gwybodaeth i'w cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae ContinYou Cymru a'u partneriaid wedi bod yn hynod ddylanwadol yn annog ac yn helpu ffurfio datblygiad Ysgolion Bro yng Nghymru, trwy gyhoeddi dogfennau i gynghori ysgolion ac awdurdodau lleol ar sut i fynd i'r afael â rhwystrau rhag rhoi gweithgareddau Ysgolion Bro ar waith. Mae'r cyngor hwn, ar fynd i'r afael â rhwystrau gan gynnwys materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, gwaith gofalwyr a glanhau, amddiffyn plant, hygyrchedd adeiladau, a thelerau ac amodau staff, wedi bod yn werthfawr iawn lle nad yw cynlluniau asesu risg awdurdodau lleol wedi bod yn ddigon trylwyr i nodi a gwella materion sy'n codi pan fydd y gymuned yn defnyddio eu hadeiladau ysgol.

Mae adroddiad Estyn hefyd yn galw ar awdurdodau lleol ac ysgolion i weithio gyda'i gilydd yn fwy i gynnig y cyfleoedd gorau i'w cymunedau. Mewn llawer o awdurdodau, mae cydlynu gweithgareddau Ysgolion Bro'r ysgolion, naill ai trwy weithio'n unigol neu mewn clystyrau, yn aneffeithiol neu'n wan. O ganlyniad, gall gweithgaredd gael ei ddyblygu mewn modd di-fudd, mae effaith y grant yn mynd yn ofer, neu nid yw'r gweithgareddau a gynigir yn gweddu'n dda i anghenion y gymuned ehangach.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar y byddai cyllid ar gael am dair blynedd arall o fis Ebrill 2008.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau bro', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi arfarniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â pha mor dda y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r grant ysgolion bro. Mae amcanion y grant hwn, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer ei ddosbarthu, ei weinyddu a'i archwilio, wedi'u nodi yng Nghylchlythyr 31/05 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad yn cynnwys:

- dadansoddiad o adroddiadau cynnydd diwedd blwyddyn awdurdodau lleol ar gyfer 2006-2007;
- dadansoddiad o ymatebion awdurdodau lleol i holiadur a ddosbarthwyd gan Estyn;
- gwybodaeth a ddarparwyd gan ContinYou Cymru;
- ymweliadau arolygwyr â phump o awdurdodau lleol;
- ymweliadau arolygwyr â sampl o ysgolion a lleoliadau bro eraill yn y pum awdurdod lleol; a
- dogfennaeth ychwanegol yn ymwneud â gwaith Ysgolion Bro yn y pum awdurdod lleol.

Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael oddi ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Alexandra Doel
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464